Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 42/2018
DYDDIAD CYHOEDDI: 11/07/2018

# Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017: Crynodeb Gweithredol

## Crynodeb gweithredol

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad cryno hwn yn cyflwyno canfyddiadau arolwg wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a gynhaliwyd gyda rhieni plant 0 i 6 oed am eu hagweddau tuag at reoli ymddygiad plant.

1.2 Cafodd y ffrâm samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg hwn ei ddarparu gan Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-2017)[1]. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion 843 o rieni \ gwarcheidwaid plant 0 i 5 oed[2] (ar adeg eu cyfweliad ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol) a oedd wedi cytuno ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy at ddibenion ymchwil.

1.3 Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn rhwng 5 Hydref a 3 Tachwedd 2017. Rhoddwyd y dewis i'r holl ymatebwyr gymryd rhan yn Gymraeg neu yn

[1] http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy
[2] Y sampl y tynnwyd arni oedd rhieni plant 0 i 5 oed ar adeg eu cyfweliad ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2016-2017. Gan fod gwaith maes ar gyfer yr arolwg dilynol o Reoli Ymddygiad Plant wedi cael ei gynnal yn hwyrach yn 2017 (Hydref / Tachwedd), roedd y rhieni hyn yn gallu cynnwys y rhai yr oedd ganddynt bellach blentyn a oedd hyd at 6 blwydd oed. Felly cyfeirir atynt fel rhieni plant 0 – 6 blwydd oed pan adroddir ar ganlyniadau'r arolwg.

Saesneg. Cwblhawyd cyfanswm o 269 o gyfweliadau ac roedd hyn yn gyfradd ymateb o 44%.

1.4 Cafodd y sampl derfynol o gyfweliadau ei phwysoli yn ôl ffactorau demograffig allweddol er mwyn cynrychioli rhieni plant 0 i 5 oed yng Nghymru. Y ffactorau oedd:

- Rhywedd y rhiant;
- Oedran y rhiant;
- Deiliadaeth;
- Math o aelwyd (aelwyd â rhiant sengl \ dau riant);
- Cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)

1.5 Roedd yr holiadur yn cynnwys adrannau ar y canlynol:

- Llesiant a rhianta;
- Agweddau tuag at smacio;
- Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio;
- Cefnogaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth;
- Ymddygiadau rhianta;
- Gwasanaethau cymorth i rieni;
- Ymwybyddiaeth a barn am yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*.

1.6 Ymgyrch rhianta cadarnhaol yw *Magu plant. Rhowch amser iddo* a rhieni a gwarcheidwaid plant 0-5 oed yng Nghymru yw ei brif gynulleidfa darged hyd at 2017-2018[3]. Nod yr ymgyrch yw: annog rhieni i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am rianta cadarnhaol; codi ymwybyddiaeth o negeseuon ynghylch rhianta cadarnhaol; cynyddu nifer y rhieni a gwarcheidwaid sy'n ymwybodol o strategaethau anghorfforol i reoli ymddygiad plant a manteision y rhain.

1.7 Er bod rhai cwestiynau newydd ar gyfer arolwg 2017, roedd yr arolwg yn ailadrodd yr arolwg meincnod yn 2015 i raddau helaeth, ac fe'i cynhaliwyd gan ddefnyddio'r un dull ymchwil. Felly dygir cymariaethau â'r astudiaeth hon o 2015

[3] O 2018 cafodd y gynulleidfa darged ei hestyn i gynnwys rhieni a gwarcheidwaid plant 0-7 oed.

yn yr adroddiad hwn a defnyddiwyd profion ystadegol i asesu a yw'r gwahaniaethau rhwng y ddwy astudiaeth yn arwyddocaol (yn gallu cael eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach) ynteu wedi deillio o wall samplu (wedi digwydd trwy hap a damwain).

1.8 Lle disgrifir gwahaniaethau fel rhai sy'n arwyddocaol yn ystadegol mae tebygolrwydd o lai na 5% bod y gwahaniaeth a ganfuwyd yn y sampl wedi digwydd trwy hap a damwain (gwall samplu) – h.y. rydym 95% yn hyderus y gellir cymhwyso'r gwahaniaeth i'r boblogaeth gyffredinol ac nid dim ond y rhai sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg.

## 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Roedd y mwyafrif o'r rhieni (81%) yn anghytuno â'r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau* a dim ond 11% oedd yn cytuno â'r gosodiad. Mae cymharu hyn â'r canfyddiadau ar gyfer yr un cwestiwn yn 2015 (71% yn anghytuno, 25% yn cytuno) yn dangos bod rhieni bellach yn llai tebygol o ddweud *bod* angen smacio plentyn drwg weithiau. Mae profion ystadegol yn cadarnhau bod y gwahaniaeth ym mhatrwm yr ymatebion yn arwyddocaol.

2.2 Dywedodd ychydig yn llai na thraean (31%) o'r rhieni eu bod yn smacio plentyn dan rai amgylchiadau penodol. O fewn hyn, dim ond 5% a ddywedodd eu bod yn gyfforddus gyda'r syniad ac y byddent yn ei wneud pan fo angen, gyda 26% arall yn dweud nad ydynt yn hoff o'r syniad ond y byddant yn ei wneud os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio.

2.3 Mae'r gyfran a ddywedodd eu bod yn smacio dan rai amgylchiadau penodol (31%) wedi gostwng o'r 44% a ymatebodd yn y ffordd yma yn arolwg 2015. Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol a gellir ei gyffredinoli i boblogaeth ehangach rhieni plant 0 i 6 oed.

2.4 O ran rhai amgylchiadau penodol, dywedodd tua 3 ym mhob 10 rhiant y byddai'n briodol smacio plentyn i'w atal rhag gwneud rhywbeth niweidiol neu beryglus iddo'i hunan (30%) neu i blentyn arall (29%). Fodd bynnag, dywedodd llawer llai y byddai'n briodol smacio i reoli ymddygiad arall. Dim ond 6% a

ddywedodd eu bod yn ystyried bod smacio'n briodol pan fo ymddygiad allan o reolaeth a 7% fel cosb am ymddygiad drwg.

2.5 Pan ofynnwyd a oeddent wedi smacio'u plentyn yn y 6 mis diwethaf (fel ffordd o reoli eu hymddygiad), dywedodd 11% eu bod wedi. Er y gallai rhywun ddadlau bod rhywfaint o ddymunoldeb cymdeithasol[4] yn yr atebion a roddir yn ystod arolwg ffôn, mae'n ddiddorol nodi, o'i gymharu ag arolwg 2015 (a gynhaliwyd yn yr un modd), bod y ffigwr hwn wedi haneru o 22%.

## 3. Deall ymddygiad smacio

3.1 Er mwyn rhoi dealltwriaeth am rai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag smacio, cafodd ymatebion rhieni eu rhannu'n ddau grŵp yn seiliedig ar eu hateb i gwestiwn yn yr arolwg.

- Y rhai a ddiffiniwyd fel 'weithiau'n smacio' oedd rhieni a oedd wedi dweud *Dydw i ddim yn hoff o'r syniad o smacio plentyn ond fe wnaf hynny os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio* **neu** *Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o smacio plentyn ac fe wnaf hynny pan wyf yn meddwl bod angen.*
- Y rhai a ddiffiniwyd fel 'byth yn smacio' oedd y rhai a oedd wedi dweud *Rwy'n meddwl ei bod wastad yn anghywir smacio plentyn, ac ni wnaf hynny.*

3.2 Roedd rhieni a oedd yn meddwl ei bod yn briodol smacio dan yr amgylchiadau canlynol yn fwy tebygol o fod wedi dweud eu bod yn smacio na'r rhai nad oeddent yn meddwl ei bod yn briodol smacio dan yr amgylchiadau hyn:

- I'w hatal rhag gwneud rhywbeth sy'n beryglus neu'n niweidiol iddynt hwy;
- I'w hatal rhag gwneud rhywbeth sy'n beryglus neu'n niweidiol i blentyn arall;
- Pan fo ymddygiad allan o reolaeth; ac

[4] Math o fias ymateb yw bias dymunoldeb cymdeithasol sy'n ymwneud â thuedd ymatebwyr i arolwg i ateb cwestiynau mewn modd y bydd eraill yn edrych yn ffafriol arno.

- Fel cosb am ymddygiad drwg.

3.3 Y tu hwnt i'r ffactorau amgylchiadol hyn, mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth bod rhieni sy'n dweud eu bod yn smacio:

- Yn fwy tebygol o fod yn anfodlon ar yr ardal y maent yn byw ynddi;
- Yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gweiddi ar eu plant;
- Yn llai tebygol o ddweud eu bod yn neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae.

3.4 Fodd bynnag, nid yw'r arolwg yn darparu digon o dystiolaeth i awgrymu bod y newidynnau canlynol yn gysylltiedig â'r ymddygiad smacio y dywedwyd amdano:

- ystod o ffactorau demograffig megis rhywedd y rhiant, oedran y rhiant, y math o aelwyd (aelwyd â rhiant sengl / mwy nag un rhiant), cyrhaeddiad addysgol neu ddeiliadaeth;
- lefel amddifadedd yr ardal y maent yn byw ynddi;
- canfyddiadau rhieni am eu bodlonrwydd ar eu hiechyd, eu perthynas, neu eu bywyd ar y cyfan;
- canfyddiadau rhieni am ymddygiad y plentyn.

## 4. Cyngor a chymorth i reoli ymddygiad plant

4.1 Dywedodd 40% o rieni eu bod wedi ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad eu plant.

4.2 Pan ofynnwyd o ble y cawsant yr wybodaeth hon a'r cyngor hwn, dywedwyd mai'r rhyngrwyd oedd y ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf poblogaidd ar gyfer rheoli ymddygiad plant – 52% o'r rhai a oedd wedi chwilio am wybodaeth a chyngor erioed. Yr atebion mwyaf poblogaidd ar ôl hynny oedd gweithiwr iechyd proffesiynol (35%), ysgol (20%) a ffrind\perthynas (14%).

4.3 Gofynnwyd cwestiwn tebyg yn arolwg 2015, er ei fod yn cyfeirio at gael gafael ar wybodaeth a chyngor ynghylch sgiliau rhianta yn hytrach nag yn benodol ynghylch rheoli ymddygiad plant ac felly ni ellir cymharu'r canlyniadau'n

uniongyrchol. Fodd bynnag, ymddengys mai un duedd gyffredinol yw poblogrwydd cynyddol cymorth ar-lein – dim ond 12% o’r rhai a oedd wedi cael gafael ar gymorth gyda sgiliau rhianta oedd wedi gwneud hynny ar-lein yn 2015.

4.4 Mae’r mwyafrif llethol o’r rhai sydd wedi cael gafael ar gyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad plant yn dweud bod hynny wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu sgiliau rhianta neu eu hyder – dywedodd 9% bod hynny wedi helpu llawer a dywedodd 46% ei fod wedi helpu ychydig.

4.5 Dywedodd rhieni eu bod wedi defnyddio amrywiaeth eang o wahanol dechnegau i reoli ymddygiad eu plant. Canmol ymddygiad da, datblygu gorchwylion rheolaidd, dweud na a dweud y drefn wrthynt oedd y rhai y dywedodd y gyfran uchaf o rieni eu bod yn eu defnyddio.

4.6 Roedd y rhai sydd ‘weithiau’n smacio’ yr un mor debygol ar y cyfan i ddweud eu bod yn defnyddio technegau eraill â’r rhai nad ydynt ‘byth yn smacio’. Fodd bynnag, roedd dau faes lle canfuwyd gwahaniaethau sy’n arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y rhai sydd weithiau’n smacio’n fwy tebygol o ddweud eu bod yn gweiddi ar eu plant (88% o’i gymharu â 60% o’r rhai nad ydynt byth yn smacio) a hefyd yn llai tebygol o neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae (79% o’i gymharu â 90%).

## 5. Deddfwriaeth mewn perthynas â rheoli’r newid yn ymddygiad plant

5.1 Y sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas ag smacio yng Nghymru yw bod rhieni ac oedolion sy’n gweithredu yn lle rhiant yn gallu dibynnu ar yr amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosodiad cyffredin. Nid yw rhieni sy’n achosi anaf corfforol i’w plant yn gallu defnyddio’r amddiffyniad cosb resymol ar gyfer cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy’n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro, “er y gall unrhyw anaf sy’n fwy nag un ‘dros dro neu fach’ berthyn i’r dosbarth gwir niwed corfforol, cyhuddiad o Ymosodiad Cyffredin fydd yr un priodol lle nad oes anaf neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol”.

5.2 Roedd tua hanner (53%) y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl nad oedd y gyfraith “yn caniatáu i rieni smacio’u plant”. Roedd tua thraean (33%) yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd y 14% sy’n weddill nad oeddent yn siŵr.

5.3 Pan ddywedwyd wrthynt fod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio’u plant neu eu disgyblu’n gorfforol ar hyn o bryd, roedd 72% yn meddwl y byddai’n caniatáu i rieni smacio ond peidio â gadael unrhyw farc ar eu plentyn. Roedd llawer llai’n meddwl y byddai marc coch dros dro’n cael ei ganiatáu (27%) ac roedd ychydig iawn (1%) yn meddwl y byddai cleisio’n cael ei ganiatáu.

5.4 Gofynnwyd i rieni beth oedd eu barn am newid deddfwriaethol hefyd. Defnyddiwyd dau gwestiwn a oedd wedi’u geirio’n wahanol: y naill a oedd yn gofyn a ddylai’r gyfraith ganiatáu i rieni smacio’u plant; a’r llall a oedd yn gofyn a ddylai rhieni gael eu gwahardd yn llwyr rhag taro’u plant, hyd yn oed eu smacio fel cosb.

5.5 Er bod elfen o safbwyntiau cymysg ar y pwnc, pan ofynnwyd a ddylai’r gyfraith ganiatáu i rieni smacio’u plant, mae’r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda’r rhai sy’n meddwl na ddylid caniatáu smacio: mae 50% yn anghytuno y dylai gael ei ganiatáu, ac mae 24% yn cytuno y dylai.

5.6 Pan ofynnwyd a ddylai fod gwaharddiad llwyr, eto mae’r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda’r rhai sy’n meddwl na ddylai smacio gael ei ganiatáu, ond yma mae’r bwlch yn llai – mae 48% yn cytuno y dylai fod gwaharddiad llwyr, mae 39% yn anghytuno. Bu newid bach yn y gefnogaeth i waharddiad ers 2015 (pan oedd 46% yn cytuno a 43% yn anghytuno) ond nid yw’n arwyddocaol yn ystadegol.

## 6. Yr Ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*

6.1 Ar sail disgrifiad o’r ymgyrch ar lafar a rhai o sloganau’r ymgyrch, dywedodd 8% eu bod yn ymwybodol o’r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*.

6.2 Ymhlith y rhieni hynny a ddywedodd eu bod ‘weithiau’n smacio’ a ‘byth yn smacio’ roedd ymwybyddiaeth o’r ymgyrch yn debyg iawn (7% ac 8% yn y drefn honno).

6.3 Roedd yr hyn yr y grŵp bach a oedd yn ymwybodol o’r ymgyrch yn ei gofio amdano’n canolbwyntio ar ‘rianta cadarnhaol’ a ‘chymryd amser \ treulio amser gyda phlant’.

## 7. Casgliadau

7.1 Mae cymharu rhai o'r mesurau allweddol o arolygon 2017 a 2015 yn dynodi y bu rhywfaint o newid mewn agweddau tuag at smacio ymhlith rhieni plant 0 i 6 oed dros y cyfnod hwn. Mae llai o rieni bellach yn dweud eu bod yn smacio plentyn dan rai amgylchiadau penodol (31%) nag a ddywedodd hynny yn arolwg 2015 (44%). Ar ben hynny, mae'r gyfran o rieni plant 0 i 6 oed a ddywedodd eu bod wedi smacio'u plentyn yn y 6 mis diwethaf wedi gostwng hefyd o 22% yn 2015 i 11% yn 2017.

7.2 Mae arolwg 2017 yn atgyfnerthu canfyddiad rhifyn 2015 yn yr ystyr bod ffactorau amgylchiadol, megis er mwyn atal niwed iddynt hwy eu hunain neu i blant eraill, yn rhagfynegydd gwell ar gyfer ymddygiad smacio y dywedir amdano na newidynnau demograffig megis oedran, rhywedd, amddifadedd, cyrhaeddiad addysgol neu aelwydydd â rhiant sengl/mwy nag un rhiant, lle na chanfuwyd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol.

7.3 Y tu hwnt i ffactorau amgylchiadol, canfu'r arolwg fod cysylltiad rhwng bodlonrwydd ar yr ardal y maent yn byw ynddi ac ymddygiad smacio y dywedwyd amdano er nad yw hyn i'w weld fel pe bai'n ymestyn i ffactorau llesiant eraill megis bodlonrwydd ar: fywyd ar y cyfan, iechyd neu'r cartref.

7.4 Ymddengys fod rhieni'n gynyddol yn chwilio ar-lein am gyngor a chymorth i reoli ymddygiad plant ac felly bydd eu cyfeirio at ffynhonnell hygred yn bwysig. Ystyriaeth bellach yw sicrhau bod y rhai ac arnynt fwyaf angen y cyngor yn cael eu cymell neu eu cyfarwyddo i ddod o hyd i gyngor yn y lle cyntaf. Canfu'r arolwg fod y rhai sy'n dweud eu bod yn smacio ychydig yn llai tebygol o fod wedi chwilio am gyngor na'r rhai sy'n dweud nad ydynt yn smacio er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol.

7.5 Ar sail tystiolaeth o'r arolwg hwn, hyd yma dim ond rôl gyfyngedig fu gan yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* gan Lywodraeth Cymru fel ffynhonnell cyngor ar gyfer rhieni y cyfwelwyd â hwy. Roedd wyth y cant o'r rhieni'n ymwybodol o'r ymgyrch, er mai un o gyfyngiadau'r arolwg dros y ffôn yw mai dim ond ar sail y ffaith bod rhieni'n adnabod enw'r ymgyrch a'r disgrifiad

ohono a roddir gan y cyfwelydd y gellir barnu ynghylch ymwybyddiaeth gan nad oedd yn bosibl dangos deunyddiau'r ymgyrch iddynt.

7.6 Er y bu gostyngiad yn y gyfran o'r rhieni sy'n dweud eu bod yn smacio, ni fu unrhyw newid sy'n arwyddocaol yn ystadegol yn y rhai sy'n cytuno y dylai rhieni gael eu gwahardd yn llwyr rhag taro'u plant, hyd yn oed eu smacio fel cosb ac mae safbwyntiau cymysg o hyd am y pwnc yma. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda chefnogi'r gwaharddiad gan fod 48% yn cytuno y dylai fod gwaharddiad a 39% yn anghytuno.

Awduron yr Adroddiad:

Chris Timmins, Beaufort Research
Owen Knight, Beaufort Research

Adroddiad ymchwil llawn - dyfyniad: Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017; Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 42/2018. Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?lang=cy

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Hayley Collicott:
Is-adran Plant a Theuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Hayley.Collicott@gov.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-681-4